



Cyflymu dyfodol sero net
lle mae ynni glân yn pweru
ein bywydau

Accelerating a net zero
future where clean energy
powers our lives

Croeso

Batri Gogledd Abertawe

Mae EDF Renewables UK and Ireland yn cynnig datblygu cynllun storio ynni batri (BESS) o'r enw Batri Gogledd Abertawe rhwng Felindre a Threforys.

Mae batris ar raddfa fawr yn storio trydan ac yn ei ryddhau pan fo angen. Maent yn gweithio fel batris ailwefradwy enfawr, gan helpu i gydbwyso cyflenwad a galw yn y grid pŵer.

Byddai Batri Gogledd Abertawe yn darparu:

- Capasiti o hyd at 250 MW
- Storio digon o drydan i bweru anghenion cyfatebol 810,000 o gartrefi cyffredin yn y DU am ddwy awr*
- Hyd at 40 mlynedd o oes weithredol

Rydym yn cynnal Ymgynghoriad Cyn-ymgeisio ar ein cynlluniau drafft o **14 Mai i 16 Mehefin 2025**.

Cymerwch olwg ar y byrddau gwybodaeth, gofynnwch unrhyw gwestiynau sydd gennych i'r tîm a llenwch ffurflen adborth.

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn ystyried yr holl adborth a dderbyniwn.

Byddwn yn cyflwyno'r cais cynllunio terfynol i Gyngor Abertawe i wneud penderfyniad.

www.edf-re.uk/our-sites/swansea-north/
swanseanorth@edf-re.uk
01792 002717



*Mae'r fethodoleg yn tybio bod pob batri yn cynhyrchu ar 100% am gyfnod o ddwy awr. Seiliwyd ar ddefnydd blyneddol cartref o 2,700 kWh/y flwyddyn.

Welcome

Swansea North Battery

EDF Renewables UK and Ireland is proposing to develop a battery energy storage scheme (BESS) called Swansea North Battery between Felindre and Morriston.

Large-scale batteries store electricity and release it when needed. They work like a giant rechargeable battery, helping balance supply and demand in the power grid.

Swansea North Battery would deliver:

- Capacity of up to 250 MW
- Storage for enough electricity to power the equivalent needs of 810,000 average UK homes for two hours*
- Up to 40 years operational lifetime

We are undertaking a Pre-application Consultation on our draft plans from **14 May to 16 June 2025**.

Please take a look at the information boards, ask the team any questions you have and complete a feedback form.

After the consultation, we will consider all of the feedback we receive.

We will submit the final planning application to Swansea Council for a decision.

www.edf-re.uk/our-sites/swansea-north/
swanseanorth@edf-re.uk
01792 002717




*Methodology assumes that all batteries are producing at 100% for a two hour period. Based on an annual household consumption of 2,700 kWh/year.

The proposed development

The site is well screened and the visual impact of the proposal will be minimal.

The site is low quality agricultural land. It is close to the National Grid’s Swansea North substation, where we have secured a grid connection. There are other small developments neighbouring the site relating to the grid and energy generation.



The proposed development will include:

- Approximately 112 Battery Energy Storage System (BESS) enclosures.
- 64 Medium Voltage Skids (MVS), which are house the combined voltage transformer and inverter.
- Other equipment including a control room and switch room.

The BESS enclosures and MVS have the dimensions of a 20ft shipping container.

Traffic and access

Our preferred option is for construction traffic to exit the M4 at Junction 46, travel to site along Pant Lasau Road and Rhydypandy Road (shown on the map as a pink line), and **access the site to the north**. We are also drafting a Construction Traffic Management Plan which will clearly describe how deliveries to site will be safely and sensitively planned.



Walsall battery

Heritage and coal mining



We have undertaken a Historic Environment Appraisal and Coal Mining Risk Assessment.

Public Rights of Way

The land is privately owned. There is one Public Right of Way (PRoW) across the site. If any temporary diversions are needed, these will be agreed with the local Rights of Way Officer.

Ecology & ornithology



A Preliminary Ecological Appraisal has been undertaken to assess existing species onsite.

Will it be noisy?

BESS developments have reasonably limited noise effects compared to other forms of development and this site is located away from residential and other properties.

Nevertheless, a Noise Impact Assessment will be undertaken to ensure the project operates within acceptable noise thresholds defined by Swansea Council.

Net Benefit for Biodiversity



We are committing to improving biodiversity on site by at least 10%. This will be subject to a planning condition post-consent and may include scrub management to enhance the habitats, creation of ponds, removal of invasive species and grazing rotation.

Grid connection

The battery will be connected to the nearby Swansea North National Grid substation via underground cabling. This is subject to a separate planning application.

Flood risk and drainage


We have undertaken a Flood Consequence Assessment to assess how the site could be affected by flooding and surface water. We will submit a Drainage Strategy as part of the planning application.



Y datblygiad arfaethedig

Mae wedi’i sgrinio’n dda a bydd effaith weledol y cynnig yn fach iawn.

Tir amaethyddol o ansawdd isel yw’r safle. Mae’n agos at is-orsaf Gogledd Abertawe y Grid Cenedlaethol, lle rydym wedi sicrhau cysylltiad grid. Mae datblygiadau bach eraill gerllaw’r safle sy’n ymwneud â’r grid a chynhyrchu ynni.



Bydd y datblygiad arfaethedig yn cynnwys:

- ➔ Tua 112 uned gaeedig System Storio Ynni Batri (BESS).
- ➔ 64 Sgid Foltedd Canolig (MVS), sy’n gartref i’r trawsnewidydd foltedd a gwrthdröydd cyfun.
- ➔ Offer arall gan gynnwys ystafell reoli ac ystafell switch.

Mae gan yr unedau caeedig BESS a’r MVS ddimensiynau cynhwysydd cludo 20 troedfedd.



Traffig a mynediad

Mae llwybr mynediad y safle ar gyfer traffig adeiladu yn cael ei asesu. Ein dewis ni (sydd i’w weld ar y map fel llinell binc) yw i drafftio adeiladu adael yr M4 wrth Gyffordd 46, teithio i’r safle ar hyd Heol Pant Lasau a Heol Rhydypany a **mynd i mewn i’r safle tua’r gogledd**. Rydym hefyd yn drafftio Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu a fydd yn disgrifio’n glir sut y bydd danfoniadau i’r safle’n cael eu cynllunio’n ddiogel ac yn sensitif.



Batri Walsall

Treftadaeth a chloddio glo



Rydym wedi cynnal Asesiad Amgylchedd Hanesyddol ac Asesiad Risg Cloddio Glo.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Mae’r tir yn eiddo preifat. Mae un Hawl Tramwy Cyhoeddus (HTC) ar draws y safle. Os oes angen unrhyw ddargyfeiriadau dros dro, bydd y rhain yn cael eu cytuno gyda’r Swyddog Hawliau Tramwy lleol.

Ecoleg ac adareg



Mae Asesiad Ecolegol Cychwynnol wedi’i gynnal i asesu pa rywogaethau sydd ar y safle ar hyn o bryd.

A fydd yn swnllyd?

Effeithiau Sŵn cymharol gyfyngedig sydd gan ddatblygiadau BESS o’u cymharu â mathau eraill o ddatblygiad ac mae’r safle hwn wedi’i leoli i ffwrdd o eiddo preswyl ac eiddo arall.

Serch hynny, cynhelir Asesiad Effaith Sŵn i sicrhau bod y prosiect yn gweithredu o fewn trothwyon sŵn derbyniol a ddiffinnir gan Gyngor Abertawe.

Budd Net i Fioamrywiaeth



Rydym yn ymrwymo i wella bioamrywiaeth ar y safle o leiaf 10%. Bydd hyn yn ddibynnol ar amod cynllunio ar ôl caniatâd a gall gynnwys rheoli prysgwydd i wella’r cynefinoedd, creu pyllau, cael gwared ar rywogaethau ymledol a chylchdroi pori.

Cysylltiad grid

Bydd y batri wedi’i gysylltu ag is-orsaf Grid Cenedlaethol Gogledd Abertawe gerllaw trwy geblau tanddaearol. Mae hyn yn destun cais cynllunio ar wahân.

Perygl llifogydd a draenio

Rydym wedi cynnal Asesiad Canlyniadau Llifogydd i asesu sut y gallai llifogydd a dŵr wyneb effeithio ar y safle. Byddwn yn cyflwyno Strategaeth Draenio fel rhan o’r cais cynllunio.



Pam mae angen storio ynni batri?



Mae ein hangen am drydan yn cynyddu. Rhagwelir y gallai galw Cymru am drydan bron dreblu erbyn 2050 oherwydd trydaneiddio gwres a thrafnidiaeth. Wrth i ni ddod â mwy o ynni adnewyddadwy ar-lein i wella ein diogeledd ynni a throsglwyddo i ffwrdd o danwydd ffosil, bydd storio batris yn dod yn fwyfwy hanfodol.

Mae gan Lywodraeth y DU darged o gyrraedd sero net erbyn 2050 a 95% o pŵer glân erbyn 2030. Mae ei Chynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030 yn rhagweld y bydd capasiti ynni glân newydd yn cael ei roi ar waith yn gyflym ledled y DU gyfan, gan gynnwys 23-27 GW o gapasiti batri.*

Mae storio batris yn hanfodol oherwydd ei fod yn:

Hyblyg – Er mwyn cadw cyflenwadau pŵer i lifo, rhaid i gyflenwad a galw trydan fod yn gyfartal, neu'n 'gytbwys' bob amser. Mae storio batris yn darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen ar y Grid Cenedlaethol i reoli natur ysbeidiol cyflenwad o ynni adnewyddadwy a chynnal y cydbwysedd hanfodol hwn.

Diogel – Gall batris ymateb yn gyflym iawn i ddiffygion ar y rhwydwaith neu newidiadau yn y cyflenwad a'r galw am drydan, gan helpu i leihau'r risg o doriadau pŵer a sicrhau rhwydwaith diogel a gwydn.

Addasadwy – Wrth i fwy o'n bywydau gael eu pweru gan drydan – o wresogi i geir i ganolfannau data – mae ein system ynni'n newid. Mae batris yn helpu i ddiogelu'r grid ar gyfer y dyfodol ac integreiddio mwy o pŵer adnewyddadwy'n gost-effeithiol.

*<https://www.gov.uk/government/publications/clean-power-2030-action-plan>

Why do we need battery energy storage?



Our need for electricity is rising. It is predicted that Wales' demand for electricity may almost triple by 2050 due to the electrification of heat and transport. As we bring more renewable energy online to improve our energy security and transition away from fossil fuels, battery storage will become increasingly critical.

The UK Government has a target of reaching net zero by 2050 and 95% clean power by 2030. Its Clean Power 2030 Action Plan envisages rapid deployment of new clean energy capacity across the whole of the UK, including 23-27 GW of battery capacity.*

Battery storage is essential because it is:

Flexible – To keep power supplies flowing electricity supply and demand must always be equal, or 'balanced.' Battery storage provides the flexibility required by National Grid to manage the intermittent nature of supply from renewables and maintain this vital balance.

Secure – Batteries can respond extremely rapidly to faults on the network or changes in electricity supply and demand, helping to reduce blackout risk and ensure a secure and resilient network.

Adaptable – As more of our lives are powered by electricity – from heating to cars to data centres – our energy system is changing. Batteries help to future-proof the grid and cost-effectively integrate more renewable power.

*<https://www.gov.uk/government/publications/clean-power-2030-action-plan>



Manteision y prosiect

Diogeledd ynni

Bydd gwneud y defnydd gorau o ynni glân cartref a symud i ffwrdd o danwydd ffosil drud yn lleihau ein dibyniaeth ar ynni sy'n cael ei fewnforio, gan helpu i amddiffyn aelwydydd a busnesau rhag siociau prisiau yn y dyfodol.

Cronfa Budd Cymunedol



Byddwn yn darparu Cronfa Budd Cymunedol o £50,000 fel swm untro. Bydd pobl leol yn gallu cynghori ar strategaeth a gwariant y gronfa, fel y gallant flaenoriaethu materion sy'n bwysig i'r ardal leol. Os oes gennych syniadau ar sut y dylid ei wario, rhowch wybod i ni.

Y gadwyn gyflenwi



Wrth ddatblygu safle rydym yn defnyddio cwmnïau lleol lle bynnag y bo modd, i sicrhau bod y gymuned leol yn elwa o'n gwaith. Cysylltwch os hoffech gofrestru eich diddordeb fel cyflenwr posibl.



Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy



Un o'r ffyrdd rydym wedi gweithio gyda phartneriaid addysg lleol yw'r rhaglen addysg arobryn Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy a ddatblygwyd gan Goleg Sir Benfro, EDF Renewables UK, DP Energy a Fforwm Arfordirol Sir Benfro.

Yn dilyn rhaglen beilot lwyddiannus a gynhaliwyd yng Ngholeg Sir Benfro, mae'r cwrs wedi'i gyflwyno i golegau addysg bellach eraill gan gynnwys Coleg Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r cwrs dwyieithog yn darparu Cymhwyster Prosiect Estynedig Lefel 3 i bobl ifanc 16–18 oed. Un o'r agweddau allweddol ar y rhaglen yw'r cydweithio rhwng y diwydiant ac academia i bontio'r bwlch sgiliau ac arddangos yr amrywiaeth o yrfaedd sydd ar gael.

Project benefits

Energy security

Making the best use of home-grown clean energy and moving away from expensive fossil fuels will reduce our reliance on imported energy, helping to protect households and businesses from future price shocks.

Community Benefit Fund



We will provide a Community Benefit Fund of £50,000 as a one-off amount. Local people are able to advise on the fund strategy and spend, so they can prioritise issues that are important to the local area. If you have thoughts on how this should be spent, please let us know.

Supply chain



During the development of a site we use local companies wherever possible, to ensure the local community benefits from our work. Get in touch if you wish to register your interest as a potential supplier.

Destination Renewables



Just one way we've worked with local education partners is the award-winning Destination Renewables education programme developed by Pembrokeshire College, EDF Renewables UK, DP Energy and Pembrokeshire Coastal Forum.

Following a successful pilot programme run at Pembrokeshire College, the course has been rolled out to further education colleges including Neath Port Talbot College.

The bilingual course provides 16–18-year-olds with a Level 3 Extended Project Qualification. A key aspect of the programme is the collaboration between industry and academia to bridge the skills gap and showcase the range of careers available.



Gwaith adeiladu a diogelwch

Gwaith adeiladu

Bydd Cynllun Rheoli Adeiladu yn ymdrin â materion fel oriau gwaith, sŵn a dirgryniadau, llwch, golchi olwynion, a llwybrau traffig. Byddem yn ceisio sicrhau bod effeithiau posibl yn cael eu cadw cyn lleied â phosibl a bod y safle'n cael ei ddatblygu mewn ffordd gyfrifol.

Ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau, bydd angen cynnal a chadw'r safle yn achlysurol.

Diogelwch

Bydd y cwrt wedi'i amgáu o fewn ffens ddiogelwch a bydd camerâu teledu cylch cyfyng yn cael eu gosod.

Bod yn saff

Mae batris yn dechnoleg brofedig sydd wedi bod yn cael ei defnyddio ers blynnyddoedd lawer. Mae dewis celloedd yn ofalus, dyluniad y modiwlau a chynllun y safle yn sicrhau lefelau lluosog o liniaru risg tân.

Mae mesurau diogelwch tân ychwanegol yn sicrhau lefelau lluosog o liniaru risg tân a bod Safon Dân NFPA855 yr Unol Daleithiau yn cael ei bodloni, gan gynnwys mwy o fylchau rhwng ciwbiau batri. Safon Dân NFPA855 yr Unol Daleithiau yw'r safon ddiodyn a ddefnyddir ledled yr Unol Daleithiau ar gyfer prosiectau storio batri mawr, ac yn absenoldeb safon benodol i'r DU fe'i hystyrir yn arfer gorau yn y diwydiant.

Byddwn yn ceisio cyngor Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn cynnwys eu hargymhellion yn nyluniad y cyfleuster. Bydd Cynllun Rheoli Diogelwch Batris sy'n benodol i'r safle yn cael ei ddatblygu.

O dan reoliadau Sefydliad y Peirianwyr Trydanol ac Electroneg (IEEE), rhaid rheoli'r batris yn gyfrifol ar ddiwedd eu hoes ddefnyddiadwy. Gellid aildefnyddio'r deunyddiau mewn cymwysiadau storio llai eraill (tebyg i fatris ceir ail oes) neu eu stripio a'u hailgylchu, gyda'r deunyddiau prinnaf yn cael eu defnyddio ar gyfer systemau storio newydd.



Construction, security and safety

Construction

A Construction Management Plan will cover matters such as working hours, noise and vibration, dust, wheel washing, and traffic routes. We would seek to ensure that potential impacts are kept to a minimum and that the site is developed in a responsible way.

Once construction is complete, the site will require occasional maintenance.

Security

The compound will be enclosed within a security fence and CCTV cameras will be installed.

Safety

Batteries are a proven technology that have been used for many years. Careful cell selection, module design and site layout ensure multiple levels of fire risk mitigation.

Additional fire safety measures ensure multiple levels of fire risk mitigation and that US Fire Standard NFPA855 is met, including increased spacing between battery cubes. US Fire Standard NFPA855 is the default standard used across the US for large battery storage projects, and in the absence of a UK specific standard is considered industry best practice.

We will be seeking the advice of the Mid and West Wales Fire & Rescue Service and will incorporate their recommendations into the design of the facility. A site-specific Battery Safety Management Plan will be developed.

Under the Institute of Electrical and Electronics Engineers (IEEE) regulations, the batteries must be responsibly managed at the end of usable life. The materials could be re-purposed into other smaller storage applications (similar to second life car batteries) or be stripped down and recycled, with the rarer materials used for new storage systems.



Y camau nesaf

Diolch am dreulio amser yn dysgu mwy am ein system storio ynni Batri Gogledd Abertawe arfaethedig.

Mae'r Ymgynghoriad Cyn-ymgeisio hwn yn dod i ben ar **16 Mehefin 2025** felly gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi ffurflen adborth ac yn rhannu eich barn â ni cyn hynny.

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn ystyried yr holl adborth a dderbyniwn ac yn diwygio ein cynlluniau cyn cyflwyno'r cais cynllunio terfynol i Gyngor Abertawe.

Ynglŷn ag EDF Renewables UK and Ireland

Mae EDF Renewables UK and Ireland (www.edf-re.uk) yn is-gwmni i EDF Group, un o gwmnïau trydan carbon isel mwyaf y byd, ac mae ein buddsoddiad a'n harloesedd yn lleihau costau i ddefnyddwyr ac yn dod â manteision sylweddol i gymunedau.

Gyda'n portffolio gweithredol o 48 o safleoedd ynni adnewyddadwy gan gynnwys batri, gwynt ar y tir ac ar y môr, rydym yn darparu trydan carbon isel fforddiadwy sydd ei angen yn fawr. Mae gennym bortffolio sy'n ehangu gyda dros 10GW o brosiectau wrthi'n cael eu cynllunio a'u datblygu, gan gynnwys ynni gwynt, hydrogen, batri a ffotofoltäig solar.

Amserlen



www.edf-re.uk/our-sites/swansea-north/
swanseanorth@edf-re.uk
01792 002717



Next steps

Thank you for taking the time to learn more about our proposed Swansea North Battery energy storage system.

This Pre-application Consultation closes on **16 June 2025** so please make sure you complete a feedback form and tell us what you think before then.

After the consultation, we will consider all of the feedback we receive and revise our plans before we submit the final planning application to Swansea Council.

About EDF Renewables UK and Ireland

EDF Renewables UK and Ireland (www.edf-re.uk) is a subsidiary of EDF Group, one of the world's largest low carbon electricity companies, and our investment and innovation is reducing costs for consumers and bringing significant benefits for communities.

With our operating portfolio of 48 renewable energy sites including battery, onshore and offshore wind we are providing much needed affordable, low carbon electricity. We have an expanding portfolio with over 10GW of projects in planning and development, including wind, hydrogen, battery and solar PV.

Timeline



www.edf-re.uk/our-sites/swansea-north/
swanseanorth@edf-re.uk
01792 002717



